

Cofnodion

Fforwm Derbyniadau Casnewydd

Dyddiad: 19 Mehefin 2018

Yn bresennol: Esgobaeth Gatholig (Yn y Gadair)
Rheolwr Datblygu Gwasanaeth (Is-gadeirydd)
Rheolwr Derbyniadau ac Apeliadau
Cynrychiolydd Ysgolion GaG
Cynrychiolydd Ysgolion GaG
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr
Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Addysg (Dim Pleidlais)
Cynrychiolydd Cymunedau Lleol - GEMS
Cynrychiolydd

Ymddiheuriadau: Swyddog Craffu a Chomisiynu Addysg
Cynrychiolydd Cymunedau Lleol (AAA)
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd AR y grŵp a chyflwynwyd aelodau newydd i'r Fforwm.
Ymddiheuriadau am absenoldeb fel y nodwyd uchod.

2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2018

Ar dudalen 1, nododd JL mai dim ond 1 rhiant-lywodraethwr a oedd yn llenwi'r swydd a hynny gan R.Ha, sy'n mynychu'r cyfarfod heddiw. Cytunwyd pob cofnod arall fel cofnod cywir.

3. Materion yn Codi

Dim.

4. Adolygu Aelodaeth

Nododd JL y diweddariadau canlynol i'r Fforwm;

- Mae cyfnod mamolaeth R.Hu wedi dod i ben ac mae LP wedi dychwelyd a bydd yn ailddechrau fel clerc y cyfarfod.
- Mae angen i'r Fforwm gael cynrychiolydd eilaidd o ysgol gymunedol.
- Nid oes unrhyw un arall eto i gymryd lle KD ar gyfer cynrychiolaeth y Blynyddoedd Cynnar.
- Nodwyd mai R.Ha yw'r cynrychiolydd rhiant-lywodraethwr newydd.
- Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau amser, mae'r CM a'r Prif Weithredwr wedi gofyn iddynt gael eu cymryd i ffwrdd o'r aelodaeth. Fodd bynnag, gofynnir am enwebiadau newydd gan y caniateir i'r Fforwm gael hyd at 5 cynrychiolydd awdurdod lleol ar unrhyw un adeg. Cyfeiriodd y Cadeirydd at fforymau eraill awdurdodau lleol sydd ag o leiaf dau aelod etholedig, gydag un ohonynt ar y Pwyllgor Craffu Addysg.

5. Diweddariad am Dderbyniadau Cyfnod

Rhoddodd JL ddiweddariad i'r fforwm ar yr adroddiad.

Mae'r sefyllfa'n dal yn eithaf tynn o ran lleoedd a fydd yn anodd i geisiadau yn ystod y flwyddyn.

Nododd AR fod gan ysgolion Catholig eu proses eu hunain. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â gwrthodiadau ac apeliadau.

6. Diweddariad Derbyniadau yn ystod y Flwyddyn

Siaradodd JL drwy'r adroddiad. Ni fu unrhyw arafu o ran nifer y ceisiadau.

Dyweddodd JL y bu anawsterau wrth gael aelodau o'r panel ar gyfer nifer yr apeliadau a fu. Roedd hysbyseb ar gyfer aelodau'r panel apeliadau wedi mynd allan ond ychydig o ymgeiswyr oedd yno.

7. Argaeledd Llefydd Ysgol

Esboniodd JL fod yr adroddiad yn cael ei baratoi bob hanner tymor ac yn cael ei anfon i adrannau eraill yn ogystal ag addysg. Mae hyn yn helpu adrannau eraill i leoli teuluoedd yn y ddinas.

Holodd RH ynghylch rhagamcanion disgyblion ar safleoedd tai newydd. Esboniodd DW'r broses S106.

8. Rhaglen ad-drefnu

Rhoddodd DW ddiweddariad gan ddefnyddio ei hadroddiad. Cododd RH fater yn ymwneud â disgyblion yn mynd i mewn i addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd mai'r ysgol agosaf ydyw a'i fod yn symud ymlaen ar ôl blwyddyn pan fydd ysgol fel Glan Llyn yn agor – mae angen iddynt fod mewn addysg cyfrwng Cymraeg am y rhesymau cywir.

Cadarnhaodd DW bydd Glan Llyn yn ysgol sy'n tyfu.

9. Unrhyw fater arall

Dim.

10. Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol

13 Tachwedd 2018
19 Mawrth 2019

Eitem	Camau	Swyddog Cyfrifol
4	Ceisio am enwebiadau ar gyfer cynrychiolwyr ALI eraill	LP